# Pecyn Cais i Ymddiriedolwyr 2025-26

**Mae hon yn adeg gyffrous iawn i'r elusen, ac rydym yn bwriadu cynyddu ac ehangu arbenigedd ein Bwrdd i adlewyrchu ein gweledigaeth a'n gwerthoedd wrth i'r cwmni dyfu.**

# Trustee Application Pack 2025-26

**This is a very exciting time for the charity, and we are looking to increase and widen the expertise of our Board to reflect our vision and values as the company grows.**

# Neges gan y Cadeirydd Chair

### Diolch am eich diddordeb mewn dod yn Ymddiriedolwr i Ballet Cymru.

Gweler yn amgaeedig ragor o fanylion am y Cwmni, ynghyd â'r sgiliau a'r profiad yr ydym yn chwilio amdanynt i'n helpu i sicrhau bod ansawdd a safon y Bwrdd sy'n llywodraethu'r sefydliad elusennol hwn yn cynrychioli'r gymuned ehangach yr ydym yn ei gwasanaethu.

Darllenwch yr adran 'Gwneud cais' i gael manylion am sut i ymgeisio am rôl Ymddiriedolwr; edrychwn ymlaen at gael eich cais.

Cofion gorau,

Jên Angharad
Cadeirydd,
Gwent Ballet Theatre Ltd.

# Message from the

### Thank you for your interest in becoming a Ballet Cymru Trustee.

Please find enclosed further details about the Company, and what skills and experience we are looking for to help us make sure that the quality and calibre of the Board who govern this charitable organisation represent the wider community which we serve.

Please read the section 'To Apply' for details on how to apply for the role of Trustee, and we look forward to receiving your application.

With Best Wishes

Jên Angharad
Chair,
Gwent Ballet Theatre Ltd.

# Amdanom Ni

Mae BALLET CYMRU yn gwmni ballet proffesiynol arobryn. Mae'n cynhyrchu perfformiadau dawns gwreiddiol s'n ennill gwobrau ac sy'n mynd ar deithiau cenedlaethol ledled Cymru a'r Deyrnas Unedig.

Mae'r Cwmni yn ymrwymedig i gynhwysiant ac arloesedd ym myd dawns a ballet clasurol, gan geisio ffyrdd gwreiddiol a dychmygus o ymgysylltu â phobl o bob oed a gallu, a hynny yn ei gartref yng Nghasnewydd, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Ochr yn ochr â'i weithgarwch teithio, mae Ballet Cymru yn cynnig amrywiaeth o raglenni allgymorth hygyrch ar gyfer pobl ifanc a chymunedau amrywiol fel y gallant ymgysylltu â dawns hyd at lefel broffesiynol. Mae'r sefydliad hefyd yn ymwneud â gwaith arloesol mewn ymarfer cynhwysol.

Mae Ballet Cymru yn elusen gofrestredig dan yr enw Gwent Ballet Theatre Limited, ac yn cael ei ariannu gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

# About Us

BALLET CYMRU is an award-winning professional ballet company, producing original and award-winning dance performances which tour nationally throughout Wales and the UK.

The Company is committed to inclusion and innovation in dance and classical ballet, seeking original and imaginative ways to engage with all ages and abilities both locally in its hometown of Newport, nationally and internationally.

Alongside its touring activity, Ballet Cymru offers a range of accessible outreach programmes for young people and diverse communities to engage in dance up to professional level. The organisation is also involved in ground-breaking work in inclusive practice.

Ballet Cymru is a registered charity under the name Gwent Ballet Theatre Limited, and is revenue funded by the Arts Council of Wales.

“

Mae Ballet Cymru yn sefydliad blaengar a chynhwysol, sy'n chwalu rhwystrau i'r celfyddydau ac yn cyflwyno Cymru gadarnhaol yr 21ain Ganrif ar lwyfan byd-eang”.

Cerys Matthews MBE

Cyflwynydd, canwr/cyfansoddwr, awdur, a Noddwr Ballet Cymru.

“Ballet Cymru is a forward thinking and inclusive organisation, breaking down boundaries to the arts and presenting a positive, 21st Century Wales on a global stage”.

Cerys Matthews MBE

Presenter, singer/songwriter, author, and Ballet Cymru Patron

# Gweledigaeth

Ballet eithriadol wrth galon cenedl greadigol.

# Cenhadaeth

Rydym yn darparu perfformiadau rhagorol ac ymgysylltu sy'n newid bywydau, a hynny mewn ffyrdd creadigol a dychmygus.
Byddwn yn helpu i ysgogi newid diwylliant ac yn gweithredu fel eiriolwyr dros ragoriaeth, cynaliadwyedd a chynhwysiant mewn ballet.

# Gwerthoedd

Mae ein ffordd o feddwl yn flaengar, ein gweledigaeth yn gynhwysol, a'n darpariaeth yn ysbrydoledig.

# Vision

Extraordinary ballet at the heart of a creative nation.

# Mission

We will deliver outstanding performances and life changing engagement in creative and imaginative ways. We will help drive culture change and be advocates for excellence, sustainability, and inclusion in ballet.

# Values

We are innovative in our thinking, inclusive in our vision, and inspirational in our delivery.

# Gwobrau

## ENILLWYR

Enillydd y Cynhyrchiad Dawns Gorau yng Ngwobrau Theatr Cymru 2014, 2017 a 2018.

Gwobr Dawns Genedlaethol yr UK Critics' Circle yn 2006.

## ENWEBIADAU

Gwobr Dawns Genedlaethol yr UK Critics' Circle ar gyfer y Cwmni Maint Canolig Gorau yn 2022.

Gwobr Dawns Genedlaethol yr UK Critics' Circle ar gyfer y Cwmni Annibynnol Gorau yn 2013, 2015, 2016, 2017.

Y Cynhyrchiad Dawns Gorau yng Ngwobrau Theatr Cymru 2013, 2015.

# Awards

## WINNERS

Winners of Best Dance Production at The Wales Theatre Awards 2014, 2017 & 2018.

UK Critics' Circle National Dance Award, Audience Award 2006.

## NOMINATIONS

UK Critics Circle National Dance Award for Best Mid-Scale Company 2022.

UK Critics' Circle National Dance Award for Best Independent Company 2013, 2015, 2016, 2017.

Best Dance Production at The Wales Theatre Awards 2013, 2015.

# Rôl Ymddiriedolwr

Mae Ballet Cymru yn gwmni sydd â gweledigaeth ddynamig ac enw da am ragoriaeth artistig ac arloesedd.

Rydym yn chwilio am ymddiriedolwyr newydd i'n helpu i gyrraedd cynulleidfa gynyddol amrywiol ac i adlewyrchu'r sbectrwm eang o gymunedau yng Nghymru.

Bydd yr Ymddiriedolwr yn gweithio mewn partneriaeth â'r Cadeirydd, y Cyfarwyddwyr Artistig a'r Bwrdd i gefnogi gweledigaeth y Cwmni, i wella ei enw da am ragoriaeth ac arloesedd artistig, i gyrraedd cynulleidfa gynyddol amrywiol, ac i sicrhau ei gydnerthedd ariannol.

# The Role of a Trustee

Ballet Cymru is a company with a dynamic vision and a reputation for artistic excellence and innovation.

We are looking for new trustees to help us reach an increasingly diverse audience and to reflect the wide spectrum of communities in Wales.

The Trustee will work in partnership with the Chair, Artistic Directors and Board to support the vision of the Company, to enhance its reputation for artistic excellence and innovation, to reach an increasingly diverse audience and to ensure its financial resilience.

ballet cymru

**Cyfrifoldebau'r Ymddiriedolwr yw gweithio gyda'r Cadeirydd, y Cyfarwyddwyr Artistig a'r Bwrdd i helpu i wneud y canlynol:**

- **Datblygu a chyflawni'r weledigaeth artistig ar gyfer y Cwmni.**
- **Datblygu a chyflawni rhaglen ymgysylltu a chyfranogi sy'n rhan annatod o'r weledigaeth artistig a'r gwaith rhaglennu.**
- **Goruchwylio'r gwaith cynllunio ariannol hirdymor ar gyfer gwireddu gweledigaeth y Cwmni.**
- **Meithrin a chefnogi twf, llesiant a datblygiad y Cwmni.**
- **Bod yn llysgennad, yn eiriolwr ac yn llefarydd ar gyfer y Cwmni yng Nghymru, yn y DU ac yn rhyngwladol.**
- **Helpu i feithrin cefnogaeth rhoddwyr unigol, noddwyr corfforaethol, ymddiriedolaethau a sefydliadau.**
  **Sicrhau bod cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wraidd y modd y mae'r Cwmni yn gweithredu, yn adeiladu ei raglenni a'i bartneriaethau, ac yn cysylltu â'i gynulleidfaoedd.**

**Responsibilities of a Trustee are to work with the Chair, Artistic Directors and Board to help:**

- **Develop and deliver the artistic vision for the Company.**
- **Develop and deliver a programme of engagement and participation that is integral to the artistic vision and programming.**
- **Oversee the long-term financial planning for realising the vision of the Company.**
- **Nurture and support the growth, wellbeing, and development of the Company**
- **Act as an ambassador, advocate and spokesperson for the Company in Wales, the UK and internationally.**
- **Help to grow the support of individual donors, corporate sponsors, trusts and foundations.**
- **Ensure that equality, diversity, and inclusion are at the heart of how the Company operates, builds its programmes and partnerships, and connects with its audiences.**

# Sgiliau a Phrofiad

Rydym yn annog yn arbennig geisiadau gan y rheiny sy'n meddu ar lefel o arbenigedd a/neu sgiliau yn unrhyw un o'r meysydd canlynol:

- Cyllid a chyfrifo
- Ymarfer Cyfreithiol a Rheoleiddiol
- Cyfathrebu yn Gymraeg/yn ddwyieithog

Neu:

- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- Cysylltiadau â'r Gymuned
- TG a chyfathrebu digidol
- Addysg a Hyfforddiant
- Rheoli yn y Trydydd Sector
- Marchnata a Chysylltiadau Cyhoeddus
- Cynaliadwyedd a Rheoli Amgylcheddol
- Rheoli Pobl.

# Skills & Experience

We particularly encourage applications from those who have a level of expertise and/or skills in the following:

- Finance and accounting
- Legal & Regulatory Practice
- Welsh Language/Bilingual Communications

Or:

- Equality & Diversity
- Community Relations
- IT and Digital Communications
- Education & Training
- Third Sector Management
- Marketing & PR
- Sustainability & Environmental Management
- People Management.

Byddai'n fuddiol, ond nid yn hanfodol, pe bai ymgeiswyr yn gallu dangos ymwybyddiaeth, ac ychydig o ddealltwriaeth, o'r canlynol:

- Y gallu i oruchwylio cyllidebau a chyfrifon
- Y cyfyngiadau ariannol a masnachol sydd ar gwmni teithiol ar raddfa fach
- Rheoliadau cyfredol y DU ar broses lywodraethu ac atebolrwydd elusennau
- Y Gymraeg
- Datblygu Busnes a Chodi Arian.
- Dawns a/neu ballet
- Gweithio gyda grwpiau cymunedol amrywiol, neu'r rheiny mewn cymunedau dan anfantais
- Y modd y mae sefydliad y celfyddydau yn gweithredu.
- Seilwaith y celfyddydau yng Nghymru
- Profiad neu wybodaeth mewn perthynas ag arfer gorau o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant.

It would be beneficial, but not essential if applicants can demonstrate the appreciation, and some understanding of:

- The ability to oversee budgets and accounts
- The financial and commercial constraints on a small-scale touring company.
- Current UK regulations on charity governance and accountability
- The Welsh Language
- Business Development and Fundraising.
- Dance and/or ballet.
- Working with diverse community groups or those in disadvantaged communities How an arts organisation operates
- The infrastructure of the arts in Wales
- Experience or knowledge of best practice in equality, diversity, and inclusion.

Byddwn hefyd yn ystyried o ddifrif geisiadau gan rai nad ydynt, o bosibl, yn meddu ar y sgiliau a'r profiad uchod, ond sy'n barod i ddysgu.

Yn anad dim, rydym yn rhoi gwerth ar frwdfrydedd, didwylledd, goddefgarwch a thegwch, ac ymrwymiad i'r elusen.

Mae'r rôl yn un wirfoddol, ac nid oes angen profiad blaenorol o fod ar fwrdd.

Mae gwybodaeth am y Gymraeg yn ddymunol ond nid yn hanfodol ar gyfer y rôl hon.

Mae'r rôl yn un wirfoddol, a disgwylir i'r Ymddiriedolwyr fynychu o leiaf bedwar cyfarfod bwrdd bob blwyddyn (naill ai wyneb yn wyneb neu ar-lein), y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, yn ogystal â digwyddiadau i godi arian a gweithgareddau eraill, a gynhelir fel arfer ar ôl oriau swyddfa, ar safle'r elusen ger Casnewydd, De Cymru.

Hyd y gwasanaeth yw chwe blynedd ar y mwyaf, gydag adolygiad ar ôl tair blynedd.

We will also consider applications from those who may not have the skills and experience listed in this pack but have the willingness to learn.

Overall, the successful candidate will have personal qualities of energy, enthusiasm, openness, tolerance and fairness, and an intolerance of bullying and discrimination.

The role is voluntary, and previous board experience is not necessary.

Knowledge of the Welsh language is desirable, but not essential for this role.

Trustees are expected to attend at least 4 board meetings pa (either in person or online), the Annual General Meeting, as well as fundraising events and other activities, usually held after office hours at the charity's premises near Newport, South Wales.

Term of service is maximum 6 years, with a 3-year review.

# Buddion

Yn gyfnewid am hyn, rydym yn cynnig cyfle gwych i gefnogi sefydliad celfyddydol Cymreig dynamig a chreadigol ar adeg gyffrous yn natblygiad y cwmni.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn ymuno â bwrdd a thîm rheoli cyfeillgar sy'n darparu'r cymorth a'r cyfleoedd angenrheidiol i feithrin eich sgiliau arwain a llywodraethu.

Mae i rôl yr Ymddiriedolwr nifer o fanteision, yn cynnwys cyfleoedd ardderchog i ddatblygu eich sgiliau arwain busnes, yn ogystal â chefnogi elusen sy'n tyfu a chyfrannu at sector y celfyddydau creadigol yng Nghymru.

# Benefits

In return, we offer a fantastic opportunity to support a dynamic and creative Welsh arts organisation during an exciting time in the company's development.

The successful candidates will join a friendly board and management team who will provide the necessary support and opportunities to develop your skills in leadership and governance.

The role of the Trustee is voluntary has many benefits, including excellent opportunities for developing your business and leadership skills, as well as supporting a growing charity and contributing to the creative arts sector in Wales.

A chithau'n Ymddiriedolwr, byddwch yn rhan hanfodol o gwmni dynamig sy'n tyfu, ac sy'n anelu at fod yn gwmni cenedlaethol i Gymru. Byddwch yn gweld ac yn dylanwadu ar benderfyniadau y tu ôl i'r llenni ac yn dyst i hyfforddiant ac ymarferion y dawnswyr rhyngwladol gorau.

O fod yn rhan o dîm adeiladol, cyfeillgar ond uchelgeisiol, bydd gennych gyfle unigryw i wella eich sgiliau llywodraethu ac arwain. Mae Ballet Cymru yn rhoi gwerth ar Ddatblygu a Hyfforddi'r Bwrdd.

A chithau'n Ymddiriedolwr, byddwch yn cael eich gwahodd i ddigwyddiadau arbennig y cwmni ac yn dod yn aelod er anrhydedd o'n cynllun Ffrindiau.

As Trustee you will be a vital part of a dynamic and growing company that aspires to be a national company for Wales. You will see and influence decisions behind the scenes and witness the training and rehearsal of top international dancers.

As part of a constructive, friendly but ambitious team you will have a unique opportunity to enhance your skills in governance and leadership. Ballet Cymru value Board Development and Training.

As Trustee you will be invited to exclusive company events and become an honorary member of our Friends scheme.

# Gwneud Cais

**Llenwch y ffurflen gais sydd i'w gweld yn y Pecyn Cais i Ymddiriedolwyr a'i chyflwyno, ynghyd â'ch CV a'r Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth trwy'r post, trwy e-bost neu drwy fideo, i Weinyddwr Ballet Cymru, Jenny Carter:**

Email: **jenny@welshballet.co.uk**

Post:
**Recriwtio Ymddiriedolwyr,**
**Ballet Cymru,**
**1 Ystad Fasnachu y Wern,**
**Tŷ-du,**
**Casnewydd**
**NP10 9FQ.**

**Mae croeso i chi wneud cais yn Gymraeg, yn Saesneg neu yn BSL; bydd unrhyw gais a gyflwynir yn cael ei drin yn gyfartal. Byddem hefyd yn croesawu fideo dwy funud o hyd os yw'n well gennych.**

**Mae'r Pecyn Cais hwn hefyd ar gael yn Saesneg.**

# To Apply

**Please complete the application form found in the Trustee Application Pack and submit, along with your CV and the Equality and Diversity Monitoring Form to Ballet Cymru's Administrator Jenny Carter:**

**Email: jenny@welshballet.co.uk**

Post:
**Trustee Recruitment,**
**Ballet Cymru,**
**1 Wern Trading Estate,**
**Rogerstone,**
**Newport**
**NP10 9FQ.**

**You are welcome to apply in Welsh, English or BSL; any application submitted will be treated equally. A 2-minute video is also welcome, if preferred.**

**This Application pack is also available in Welsh.**

## Y DYDDIAD CAU AR GYFER GWNEUD CAIS: 5PM DYDD LLUN 15 RHAGFYR 2025

**Cysylltir â'r ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer yn fuan ar ôl y dyddiad cau i gwrdd â'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol ar safle Ballet Cymru yng Nghasnewydd, neu mewn cyfarfod ar-lein dros Zoom.**

**Os hoffech gael rhagor o fanylion am y rôl neu am y gwaith a wnawn, mae croeso i chi gysylltu â'n Gweinyddwr neu fynd i www.ballet.cymru.**

**Cysylltwch â ni os oes gennych unrhyw ofynion arbennig neu anghenion o ran mynediad.**

**Yn anffodus, ni allwn ymateb i bawb a fydd yn ymgeisio am y swydd hon, ond byddwn yn cynnal rhagor o ymgyrchoedd recriwtio yn y dyfodol.**

**I gael gwybod am newyddion a digwyddiadau diweddaraf Ballet Cymru, ymunwch â'n rhestr bostio; mae'r manylion i'w gweld ar ein gwefan www.ballet.cymru.**

## DEADLINE FOR APPLICATIONS: 5PM MONDAY 15 DECEMBER 2025

**Shortlisted applicants will be contacted shortly after the submission date to meet with the Chair and CEO at Ballet Cymru's premises in Newport, or an online meeting via Zoom.**

**If you would like further details about the role or about the work we do, please contact our Administrator or visit www.ballet.cymru.**

**Please contact us if you have any special requirements or access needs.**

**Regrettably we are not able to reply to everyone who applies for this role, but we will run more recruitment campaigns in the future.**

**To keep up to date with Ballet Cymru's news and events, please join our mailing list; details available on our website www.ballet.cymru.**

# Cydraddoldeb Ac Amrywiaeth

**Mae Ballet Cymru yn herio gwahaniaethu ac yn hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn dawns ac yn y celfyddydau. Felly, rydym yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'n cymuned, gan gynnwys pobl anabl, niwro-amrywiol, Du, Asiaidd neu amrywiol ethnig.**

**Rydym hefyd yn annog ceisiadau gan bobl o dan 40 sy'n amlygu brwdfrydedd, cymhelliant a photensial i ddatblygu yn eu rôl o fod yn Ymddiriedolwr Elusen.**

# Equality & Diversity

**Ballet Cymru challenges discrimination and promotes equality and diversity in dance and the arts. We therefore welcome applications from all sections of our community, including disabled, neuro-diverse, Black, Asian, or ethnically diverse.**

**We also encourage applications from younger people under the age 40 who demonstrate the enthusiasm, drive and potential to develop in their role as Charity Trustee.**

# Ffurflen Monitro Cydraddoldeb Ac Amrywiaeth

Rydym hefyd yn annog ymgeiswyr i lenwi a dychwelyd y Ffurflen Monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar y cyd â'u cais. Ni chaiff y ffurflen hon ei defnyddio yn ystod y broses llunio rhestr fer. Fe'i defnyddir yn unig at ddibenion adolygu effeithiolrwydd a chanlyniadau ein hymgyrchoedd recriwtio, ac i ddarparu data ystadegol i'n cyllidwyr.

Caiff yr holl wybodaeth a gyflwynir ei thrin mewn modd cwbl gyfrinachol ac yn unol â Pholisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Pholisi Preifatrwydd a Diogelu Data y Cwmni, ac yn unol â deddfau GDPR a Diogelu Data cyfredol y DU.

# Equality & Diversity Monitoring Form

We encourage applicants to also complete and return the Equality and Diversity Monitoring Form along with your application. This form will not be used during the short-listing process but will be used solely for the purpose of reviewing the effectiveness and outcomes of our recruitment campaigns, and to provide statistical data to our funders.

All information supplied will be treated in the strictest confidence and in accordance with the Company’s Equality & Diversity Policy and Privacy and Data Protection Policy, and in line with current UK GDPR and Data Protection laws.

# Y Tîm

**Cyfarwyddwr Artistig:** Darius James OBE

**Cyfarwyddwr Artistig, Ymgysylltu a Hyfforddiant:**
Amy Doughty

**Gweinyddwr:** Jenny Carter

**Rheolwr Technegol A Cynhyrchu:** Jonah Stein

**Rheolwr Cyn-broffesiynol:** Robbie Moorcroft

**Rheolwr Prosiect DUETS:** Louise Prosser
duetsdancewales.co.uk

**Swyddog Mynediad ac Allgymorth:** Louise Lloyd

**Swyddog Rhaglen Cymdeithion:** Billy Brooke

**Asiant dros Newid: Dawns:** Tonia Payne-Cheney

**Cwmni a Safle:** Mike Holden

**Bwrdd y Cyfarwyddwyr:**

**Cadeirydd:** Jên Angharad

**Is-gadeirydd:** Hannah Beadsworth

**Cyfarwyddwyr:** Emma Jones, Adam Music,
Evelyn James, Catherine Barnett

**Noddwyr:** Catrin Finch, Cerys Matthews MBE,

**Sylfaenydd:** Yvonne Greenleaf

# The Team

**Artistic Director:** Darius James OBE

**Artistic Director, Engagement and Training:**
Amy Doughty

**Administrator:** Jenny Carter

**Technical and Production:** Jonah Stein

**Rehearsals and Pre Professional:** Robbie Moorcroft

**DUETS & Engagement:** Louise Prosser
duetsdancewales.co.uk

**Access and Inclusion:** Louise Lloyd

**Associates and Engagement:** Billy Brooke

**Dance Agent for Change:** Tonia Payne-Cheney

**Company and Premises:** Mike Holden

**Board of Directors:**

**Chair:** Jên Angharad

**Vice Chair:** Hannah Beadsworth

**Directors:** Emma Jones, Adam Music,
Evelyn James, Catherine Barnett

**Patrons:** Catrin Finch, Cerys Matthews MBE

**Founder:** Yvonne Greenleaf

# Cyswllt

# Contact

E-bost: jenny@welshballet.co.uk

Ffôn: **+44 (0) 1633 892927**

Post:
**Ballet Cymru**
**Uned 1 Ystad Fasnachu'r Wern**
**Tŷ-du**
**Casnewydd NP10 9FQ**
**Cymru DU**

**Cofrestredig yn Lloegr ac yng Nghymru fel**
**Gwent Ballet Theatre Cyf. 02535169**
**Rhif Elusen 1000855**

**www.ballet.cymu**

Email: jenny@welshballet.co.uk

Phone: **+44 (0) 1633 892927**

Post:
**Ballet Cymru**
**Unit 1, Wern Trading Estate**
**Rogerstone**
**Newport NP10 9FQ**
**Wales UK**

**Registered in England and Wales**
**as Gwent Ballet Theatre Ltd. 02535169**
**Charity No. 1000855**

**www.ballet.cymru**

ballet cymru

# Cyllidwyr a Chefnogwyr

# Funders & Supporters

Mae Ballet Cymru yn cydnabod cefnogaeth gan:

Ballet Cymru is supported by:

Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

ARIENNIR GAN Y LOTERI
LOTTERY FUNDED

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Mae Ballet Cymru yn aelod o:

Celfyddydau Anabledd Cymru, Cynnal Cymru,
Arts & Business Cymru, GAVO, WCVA,
One Dance UK, People Dancing.

Ballet Cymru is a member of:

Disability Arts Wales, Sustain Wales,
Arts & Business Cymru, GAVO, WCVA,
One Dance UK, People Dancing.